

# Adroddiad Blynyddol

# Adran Addysg

2020-21



CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL

**ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2020-21**

**CYNNWYS**


1. **CYD-DESTUN**
2. **Y GYMRAEG**
3. **ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD**
4. **DIOGELU**
5. **BLYNYDDOEDD CYNNAR**
6. **Y TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG**
7. **CONSORTIWM ADDYSG ÔL-16 GWYNEDD AC YNYS MÔN**
8. **TRAC**
9. **ARWEINYDDIAETH**
10. **UNED DDATA**
11. **GWASANAETH CEFNOGI LLYWODRAETHIANT YSGOLION**
12. **UNED CONTRACTAU A CHYFLOGAETH**
13. **UNED ARLWYO A GLANHAU**
14. **CLUDIANT**
15. **CANOLFAN FUSNES ADDYSG**
16. **TECHNOLEG GWYBODAETH**

**CYD-DESTUN**

**GWELEDIGAETH YR ADRAN ADDYSG:** Plant a phobl ifanc Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant ac economi yn lleol.

**PWRPAS:** ***Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion***

**GWASANAETHAU RYDYM YN EU DARPARU:** Codi Safonau, Gwasanaethau Cefnogol, Cyflogau a Chontractau Staff Ysgolion, Pensiynau Athrawon, Arlwyo Ysgolion, Glanhau Ysgolion, Cludiant Ysgolion, Iechyd a Diogelwch, Mynediad Ysgolion, Cefnogaeth i Lywodraethwyr, Cefnogaeth Gyllidol i Ysgolion, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Uned Ddata, Cefnogaeth Adnoddau Dynol i Ysgolion a'r Adran Addysg, Presenoldeb ac Ymddygiad, Gwasanaeth Lles Addysg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Amddiffyn Plant, Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Hyfforddiant, yr iaith Gymraeg.

**BETH MAE'R ADRAN YN EI WNEUD?**

- Cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf.
- Sicrhau bod disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael y gefnogaeth fwyaf addas.
- Sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd.
- Sicrhau bod disgyblion o fewn ysgolion Gwynedd yn ddiogel.
- Darparu gwasanaethau cefnogol pwrpasol ar gyfer Gwasanaeth Addysg Gwynedd.
- Datblygu arweinwyr a chefnogi'r gweithlu yn yr ysgolion.
- Cefnogaeth i gyrff llywodraethu ysgolion er mwyn iddynt weithredu fel llywodraethwyr effeithiol.

Yn 2020-21, roedd 80 ysgol gynradd, 13 Ysgol Uwchradd 1 Ysgol Ddilynol, 1 Ysgol Gydol Oes, a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

Mae cyfnod eithriadol y pandemig eto yn 2020-21 yn golygu nad yw'r Adran Addysg mewn sefyllfa i allu adrodd ar ei brif fesuryddion perfformiad, megis presenoldeb, gwaharddiadau a llwyddiannau academaidd ein dysgwyr.

Yn ei ddatganiad ysgrifenedig (dyddiedig 21 Mehefin 2021) cadarnhaodd y Gweinidog Addysg *'y bydd y penderfyniad i atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ymestyn i flwyddyn academaidd 2021/22. Ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol ac ni ddylid ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau dysgwyr.'*

**Y GYMRAEG**

**Pwrpas**

- Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

**Nodweddion da**

- **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**
  Gosod disgwyliadau clir i'r Adran ac i'n hysgolion ar gyfer y Gymraeg fel pwnc, fel cyfrwng addysgu a dysgu, ac fel cyfrwng cymdeithasu trwy lunio ac ymgynghori ar ddogfen statudol 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg'(CSGA) newydd fydd yn disodli'r ddogfen bresennol ym Medi 2022. Yn unol â rheoliadau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) a thargedau 'Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr' Llywodraeth Cymru.

- **Canolfannau Iaith**
  Parhau i sicrhau darpariaeth addysg drochi o ansawdd i alluogi newydd-ddyfodiaid cynradd ac uwchradd i elwa'n llawn o'r gyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog yng Ngwynedd.

- **Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd**
  Hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol, trwy arwain ar y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn cynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

  Rydym wedi bod yn cydweithio ag ysgolion uwchradd i lunio cynlluniau gweithredu unigol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, ac wedi rhoi sylw penodol i gyfrwng iaith y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5.

- **Anghenion Dysgu Ychwanegol**
  Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o ADY.

- **Polisi Iaith Ysgolion**
  Rydym wedi ail-gyflwyno Polisi Iaith Ysgolion i bwysleisio ein egwyddorion cyffredinol bod:
  - holl ysgolion y sir yn gweithredu mewn modd sydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, i gynyddu a gwella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.
  - bob ysgol yn magu agweddau cadarnhaol ymysg y disgyblion a'r gweithlu tuag at yr iaith, gan greu balchder a chynyddu'r defnydd o'r iaith y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

  Yn sgil ail gyflwyno'r Polisi Iaith Ysgolion, mae perfformiad cyffredinol yn y Gymraeg yn gyson dda ar draws y gyfundrefn ysgolion.

- **Ymateb i Effaith y Cyfnodau Clo ar y Gymraeg**

Rydym wedi adnabod mai'r prif bryderon yng Ngwynedd yn sgil y cyfnodau clo yw defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, eu parodrwydd i siarad Cymraeg, a safon eu patrymau iaith ar lafar.
Mae Cydlynydd Strategaeth Iaith a'r Cydlynydd Siarter Iaith yn cyd-lunio cynlluniau gweithredu gyda'r ysgolion i ymateb i'r pryderon hyn am sgiliau llafaredd ac i hwyluso unrhyw gefnogaeth ar eu cyfer.

- **Sgiliau Iaith y gweithlu addysg**
  Rydym wedi rhoi sylw penodol i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu er mwyn ceisio hwyluso dyfodol cyfrwng Cymraeg i'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5 trwy dreialu cynllun peilot Cymraeg Gwaith i Athrawon, Llywodraeth Cymru gyda staff addysgu un ysgol uwchradd yn y sir.
  Cynlluniau i hunan-asesu a chefnogi sgiliau iaith y gweithlu addysg wedi eu gweithredu yn ysgolion uwchradd y sir.
  Comisiynu a chynnal hyfforddiant ar egwyddorion trochi iaith yn y Cyfnod Sylfaen.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Parhau i osod disgwyliadau clir i'n ysgolion ar gyfer y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu ac addysgu trwy gyflwyno a gweithredu dogfen statudol deng mlynedd 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' newydd ym Medi 2022.
- Ehangu a datblygu Cyfundrefn Drochi Gwynedd i ddarparu addysg drochi gyfoes o ansawdd i holl newydd-ddyfodiaid y sir.
- Cynllunio cyfres o weithdai hyfforddiant egwyddorion trochi iaith at ddefnydd holl athrawon y sir.
- Parhau i gefnogi dysgwyr sydd angen hwb ychwanegol i gynyddu eu hyder a'u sgiliau llafaredd yn y Gymraeg.
- Parhau i gefnogi ein ysgolion i gwblhau a gweithredu eu cynlluniau Siarter Iaith a/neu Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn hyrwyddo a chynyddu defnydd anffurfiol plant o'r Gymraeg.
- Parhau i gefnogi athrawon a chymorthyddion i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg.
- Monitro categorïau ieithyddol ysgolion a chyfrwng y ddarpariaeth addysgol er mwyn sicrhau parhad yng nghyfrwng addysg Gymraeg disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o CA2 i CA4 a thu hwnt.

**ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD**

Pwrpas y gwasanaeth ADY a CH yw:

- Cefnogi datblygiad darpariaeth ADY o ansawdd mewn lleoliadau addysgol.
- Adnabod anghenion ychwanegol yn gynnar ym mywyd y plentyn a sicrhau ymyrraeth briodol;
- Ymyrryd yn gynnar ac yn addas pan fo problemau yn dod i'r amlwg;
- Gweithio yn integredig ac aml-asiantaethol, gan rannu gwybodaeth a chyd-gynllunio ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr gydag ADY;
- Sicrhau fod sgiliau a dealltwriaeth y gweithlu yn cael eu datblygu yn gyson;
- Sicrhau cyfathrebu clir gyda'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd sy'n derbyn darpariaeth.
- Mae'r uchod yn cyfrannu ar y cyd gyda'r darparwyr addysg, ein bod yn cydymffurfio gyda'r Ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (2018) sydd wedi dod yn fyw ym mis Medi 2021.

Mae'n bartneriaeth ar y cyd â Chyngor Môn ers Medi 2017.

**Nodweddion da:**

- System Cynllun Datblygu Unigol electroneg erbyn hyn mewn defnydd gan bob ysgol ers dwy flynedd, yn dilyn cyfnod peilota llwyddiannus. Mae'r system yn hwyluso gwaith yr ysgolion a'r gwasanaeth yn sylweddol, ac yn parhau i gael ei ddatblygu ymhellach.
- Prosiect Ysgolion sy'n Meithrin yn parhau i weithredu ac arddangos canlyniadau positif o fewn y cynradd ac uwchradd, yn ogystal â datblygiadau yn y maes hwn sydd yn cynnwys hyfforddi Cymhorthyddion ELSA (Emotional Literacy Support Assistants).
- Defnydd o system Meini Prawf newydd yn cael ei ymestyn ymhellach er mwyn gallu adrodd ar gynnydd plant yn ehangach, gan fod dangos cynnydd plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn gofyn am ddulliau holistaidd.
- Nifer tribiwnlysoedd yn parhau yn isel iawn, gyda thribiwnlysoedd sydd yn ymwneud â darpariaeth o fewn ysgolion Gwynedd yn ffafriol o ran yr Awdurdod (h.y yn cadarnhau bod darpariaeth addas yn cael ei gyflwyno).
- Dangosyddion cynhwysedd ysgolion yn parhau i dangos bod ysgolion Gwynedd yn gynhwysol, er bod heriau pendant o gwmpas hyn yn sgil cyfnod pandemig - mae lefel gwaharddiadau, nifer disgyblion sydd mewn darpariaeth amgen, a niferoedd addysg gartref dewisol, a phresenoldeb, yn rhoi darlun cynhwysol iawn o gymharu â graddfeydd cenedlaethol.
- Mae'r cyfnod pandemig wedi bod yn hynod o heriol i ddysgwyr yn gyffredinol, ond yn enwedig dysgwyr gyda ADY a CH. Yn ystod arolwg Thematig Estyn o'r ddarpariaeth gafodd ei gynnig i ddysgwyr bregus, bu canmoliaeth i waith y tîm yn nghyd-destun y gynhaliaeth a gafodd ei ddarparu i ysgolion, rhieni a dysgwyr.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Gyda'r newid Deddfwriaethol wedi dod i rym, a hynny yn raddol dros gyfnod o dair blynedd (hyd at Medi 2024) rydym yn blaenoriaethu'r canlynol:
    - Parhau i ddatblygu ac adeiladu ar gysondeb darpariaeth. Hyn yn cynnwys adolygu'r dull o ddyrannu cyllid ADY i ysgolion er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer dysgwyr gydag ADY.
    - Parhau i ddatblygu ansawdd Cynlluniau Datblygu Unigol, a sicrhau fod y dysgwyr yn ganolog i'r broses.
    - Sicrhau cefnogaeth i ddarparwyr addysg er mwyn ymateb i ofynion newydd y ddeddfwriaeth

    - Parhau i gryfhau a symleiddio llwybrau darpariaeth 0-3 oed ac 16-25 oed, ac ymateb i'r gofynion o'r newydd yn yr oedrannau yma.
    - Cryfhau'r cyd-weithio aml-asiantaethol ar gyfer darparu effeithiol.
- Bydd y Gwasanaethau hefyd yn parhau i flaenoriaethu'r canlynol ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth:
    - Dulliau tracio cynnydd ac effeithiolrwydd ymyraethau o fewn y CDU ar-lein, trwy ddefnyddio'r dull cofnodi cynnydd a meini prawf diwygiedig.
    - Cryfhau'r model darpariaeth cynnal ymddygiad yn y sector uwchradd.
    - Cynllun cyfathrebu clir ar gyfer ysgolion o gwmpas prosesau paneli cymedroli a dyraniad cyllid.
- Parhau i ymateb yn effeithiol i'r gofynion yn sgil argyfwng COVID-19

**DIOGELU**

**Pwrpas**

- Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd.
- Sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n saff yn ysgolion a chanolfannau addysg y Cyngor.
- Sicrhau bod pawb sydd yn gweithio ym maes addysg yn y Sir yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru 2020.

**Nodweddion da**

- Ysgolion Gwynedd wedi derbyn gwybodaeth am y Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru a gafodd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2020. Mae'r gweithdrefnau newydd wedi eu cyflwyno'n ddigidol ar ffurf "AP". Mae staff allweddol yr adran ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol ar y gweithdrefnau drwy ddarpariaeth gan NSPCC Cymru drwy gytundeb gyda Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.
- Mae'r adran wedi sicrhau presenoldeb ymhob cyfarfod Rhan 5 lle'r oedd honiadau yn erbyn staff o fewn ysgolion Gwynedd. Mae'r niferoedd wedi gostwng yn ystod 2019 /20 gyda nifer fach iawn yn ymwneud â staff yr Adran Addysg yn uniongyrchol.
- Adran Addysg Gwynedd wedi creu pecyn hyfforddi newydd yn y Gymraeg ar gyfer Personau Dynodedig mewn ysgolion a chanolfannau addysg ar y cyd â Grŵp Diogelu Mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r cwrs wedi ei gyflwyno yn 2020 yng Ngwynedd ac ar ôl ei arfarnu a derbyn adborth ar addasrwydd y cyflwyniad, bydd yn cael ei gyflwyno yn rheolaidd yn ystod 2021.
- Mae'r adran addysg a gwasanaethau Dysgu a Datblygu'r Cyngor wedi cyd-weithio i ddatblygu pecyn hyfforddiant ym maes trais domestig. Mae'r pecyn Gofyn a Gweithredu wedi ei ddatblygu ar y cyd ac wedi ei gyflwyno i staff yr Adran Addysg yn fisol yn ystod 2020 a 2021.
- Hyfforddiant mewn ymateb yn gadarnhaol i ymddygiad amhriodol gôr-rywiol, (Brook), wedi ei ddarparu i ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod 2020 gan wasanaeth newydd Emrallt, Gwasanaethau Plant , Cyngor Gwynedd.
- Mae cyfran uchel o staff yr Adran Addysg a staff ysgolion wedi cyd-weithio gyda staff Gwasanaethau Plant i dderbyn hyfforddiant ym maes gwella ymarfer yr Adran wrth baratoi ar gyfer Cynadleddau Achos a Grwpiau Craidd. Mae'r cynllun yma yn parhau i gael ei gyflwyno yn 2021 a 2022.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Sicrhau bod pawb sydd yn gweithio ym maes addysg yng Ngwynedd wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol ar becyn newydd ar gyfer Person Dynodedig mewn ysgol mewn ymateb i ganllawiau newydd ar ddiogelu plant mewn addysg.
- Ail-sefydlu trefn o ymweliadau gwirio ansawdd blynyddol o drefniadau diogelu pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn cyfnodau clo yn ystod 2020 a 2021.
- Darparu cyrsiau "Gofyn a Gweithredu" ar gyfer holl staff addysg ac ysgolion Gwynedd. Mae'r rhaglen yma yn mynd rhagddi yn dda yng Ngwynedd ar hyn o bryd.
- Sicrhau bod y polisi diogelu cyfredol gan holl ysgolion Gwynedd yn unol â'r Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru a dogfen "Cadw Dysgwyr yn Ddiogel" 2020.
- Sicrhau bod ysgolion yn cael eu paratoi'n well ar gyfer cyfrannu'n effeithiol mewn cynadleddau achos, cyfarfodydd grŵp craidd, a chyfarfod Adran 5 yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru 2020.

**BLYNYDDOEDD CYNNAR**

Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn cynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofynion statudol o sicrhau lle meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei pen-blwydd yn 3 oed. O Fedi 2021 mae'r ddarpariaeth addysg feithrin yn cael ei gynnig mewn 58 lleoliad (dau ohonynt ar gau am gyfnod) ar draws y sir. Bellach, mae'r holl leoliadau yn aelodau o'r Mudiad Meithrin ac yn cael eu monitro'n rheolaidd.

**Nodweddion da:**

- Athrawon Ymgynghorol Cyfnod Sylfaen wedi cyflwyno hyfforddiant i'r holl leoliadau ar
    - Fagiau cyswllt cartref – llythrennedd corfforol
    - Egwyddorion y Cyfnod sylfaen, cynllunio, asesu, Y Proffil a hunan werthuso (Arweinyddion newydd)
    - Egwyddorion y cyfnod sylfaen, cynllunio, asesu, Y Proffil a hunan werthuso (Cymhorthyddion (dewisol))
    - Uwch Athrawon wedi mynychu hyfforddiant Ffordd Gwynedd
- Cydlynydd ADY Blynyddoedd Cynnar wedi cyflwyno hyfforddiant i'r holl leoliadau ar ADYaCH (y cod arfaethedig)ac i staff mewnol.
- Mae pob un lleoliad sydd wedi derbyn arolygiad ar y cyd (AGC/Estyn) ers Ionawr 2019 wedi derbyn barn 'da' ar gyfer pob thema, gydag ambell adroddiad yn cyfeirio at agweddau o ragoriaeth o fewn cynnwys yr adroddiad.
- Adolygwyd y trefniadau o ran y Grŵp Ansawdd a gwnaethpwyd y rhan fwyaf ohonynt yn rhithiol.
- Lleoliadau wedi cychwyn creu Proffiliau Un Tudalen ar gyfer pob plentyn ADY ac yn dilyn y trefniadau newydd ynghlwm gyda'r ddeddfwriaeth newydd.
- Athrawon Ymgynghorol wedi bod yn rhan o weithdy yn cyflwyno adnoddau effeithiol i gefnogi anghenion plant ifanc i bob un lleoliad.
- Agorwyd lleoliad gofal plant ac addysg feithrin newydd o dan ofalaeth Meithrinfa Ffalabalam yn Ysgol y Garnedd, Bangor gydag arian cyfalaf y Cynnig Gofal Plant.
- Parhau i rannu arferion da rhwng athrawon Dechrau'n Deg a'r athrawon Cyfnod Sylfaen.
- Uwch Athrawes Cyfnod Sylfaen wedi arolygu mewn un lleoliad arall ac yn mynd i gynnal ymweliad ymgysylltiol mewn dau leoliad arall cyn diwedd 2021.
- Y tîm wedi rhannu dyletswyddau arbenigeddau, a hyn wedi gwreiddio yn ystod y cyfnod.
- Mae 10 lleoliad wedi ymrwymo i weithio ar gynllun Croesi'r Bont gan y Mudiad Meithrin.
- Lleoliadau bellach yn ymgyfarwyddo â defnyddio taflenni cynllunio sy'n caniatáu iddynt ddilyn trywydd y plentyn a chofnodi arsylwadau sy'n nodi'r addysgu sydd wedi digwydd.
- Dros y cyfnod pandemig mae'r athrawon wedi addasu i gynnal lleoliadau'n rhithiol. Dros y cyfnod bu modd rhannu arfer dda, gwybodaeth am hyfforddiant , cynnig canllawiau ar gyfer ail-agor yn ddiogel- drwy edrych ar les y staff, plant a'r rhieni a chynnig cefnogaeth o ran asesiadau risg.
- Cafwyd cyswllt rheolaidd gyda theuluoedd plant ADY Gwynedd yn ystod y cyfnod clo i roi cefnogaeth a chynhaliaeth iddynt yn sgil y ffaith bod nifer sylweddol o leoliadau meithrin wedi cau.
- Gwnaethpwyd pecynnau o weithgareddau yn ystod y cyfnod clo ar gyfer y lleoliadau i gynnig i rieni adref a dosbarthwyd hyn fel syniad y dydd ar dudalennau Facebook / Hwb Teuluoedd Gwynedd. Lluniwyd bagiau cyswllt cartref ychwanegol ar themâu amrywiol fel Byd Bach a Cherdd.

- Safle HWB Athrawon Ymgynghorol Gwynedd wedi ei sefydlu ond yn cael trafferthion o ran y trwyddedi logio mewn.
- Dosbarthwyd laptop ac ipad i bob lleoliad meithrin.
- Dosbarthwyd grantiau cyfalaf adfer COVID i 4 darpariaeth nas cynhelir.
- Dosbarthwyd grantiau cymorth am gostau uwch oherwydd Covid i 31 darpariaeth
- Dosbarthwyd grantiau cymorth am golled incwm a chostau hunan-ynysu i 3 ddarpariaeth
- Swyddog Cynorthwyol wedi trosglwyddo drosodd o'r Mudiad Meithrin i'r tîm Blynyddoedd Cynnar

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Datblygu arbenigeddau tîm ymhellach gan gynnwys cyflwyno hyfforddiant ac arfer dda i'r sector yn rhithiol e.e. llythrennedd corfforol.
- Cael y lleoliadau addysg feithrin yn ôl i normal yn dilyn y pandemig a hyrwyddo pwysigrwydd yr addysg feithrin cyfnod sylfaen cynnar gyda theuluoedd Gwynedd.
- Dechrau ymbaratoi lleoliadau ar gyfer dyfodiad y Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes drwy gyflwyno ieithwedd y pedwar diben.
- Cyflwyno'r 'enabling steps' yn y Gwanwyn pan fydd y ddogfen wedi ei chyhoeddi.
- Parhau i ddiweddaru lleoliadau ar y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- Parhau i gefnogi'r gwaith o ran buddsoddiadau cyfalaf y Llywodraeth.

**Y TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG**

Mae gwaith moderneiddio addysg y Sir wedi parhau i gyfrannu'n llwyddiannus at y gyfundrefn addysg ac wedi denu dros £69m ers 2012. Mae'r Tîm Moderneiddio Addysg yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith cynllunio ar gyfer darparu addysg yn alinio gydag anghenion addysg y Sir a'r cwricwlwm ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Rhaglen yn un uchelgeisiol iawn sydd yn anelu i drawsnewid y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad i ysgolion o safon uchel gydag amgylchedd ddysgu sy'n cefnogi addysg ragorol. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i ddatblygu cyfundrefn addysg fydd yn cyfoethogi profiadau dysgu.

Bwriad yr Adran Addysg yw cynllunio'n strategol fel bod y math iawn a'r nifer o ysgolion wedi'u lleoli yn y mannau cywir, yn ogystal ag uwchraddio safon adeiladau ysgolion i greu ystâd sydd yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Bydd y Rhaglen yn parhau gydag ymroddiad llawn i wireddu'r weledigaeth bresennol i *"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn."*

Prif nodau'r Rhaglen ydy sicrhau bod y rhaglen waith bresennol yn parhau i gyrraedd y meini prawf a osodwyd i:

- gyfrannu at wireddu amcanion yr egwyddorion addysg addas i bwrpas i sicrhau cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw, mwy o amser digyswllt i benaethiaid cynradd a dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd;
- weithredu proses o ymgynghori gyda rhieni, staff, llywodraethwyr a rhan-ddeiliaid yn unol ag anghenion y broses statudol, gyda chyfathrebu clir;
- weithredu trefn effeithiol ar gyfer cyfathrebu gydag adrannau perthnasol y Cyngor, monitro a gwerthuso gweithgareddau;
- ddarparu nodau'r Rhaglen i sicrhau amodau arweinyddiaeth sy'n rhoi amser digonol i benaethiaid arwain, amgylchedd dysgu'r plentyn a chyflwr adeiladau gyda'r amodau gorau posibl, pellter teithio rhesymol i blant a rheolaeth fwy effeithiol o'r adnoddau addysgol yn cynnwys lleihau cost y pen er mwyn sicrhau gwerth gorau am arian;
- sicrhau cynnydd yn y broses o gwblhau'r gwaith adeiladu a sefydlu'r ysgolion sydd yn rhan o'r band cyllidol cyntaf sef Band A ac ymhellach Band B;
- gwblhau gwaith cefndirol a diweddaru data craidd y maes i fedru darparu gwybodaeth angenrheidiol i uwch swyddogion er mwyn medru ymateb yn rhagweithiol i sefyllfaoedd fel maent yn codi.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Cwblhau prosiect Bangor sydd yn cynnwys buddsoddiad gwerth £12.7 miliwn. Eisoes mae adeilad newydd Ysgol y Garnedd wedi agor yn Tachwedd 2020 gyda chapasiti o 420 gan allu cynnig lle i ddisgyblion ysgolion Coedmawr a Glanadda yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni. Mae'r gwaith o gynyddu capasiti Ysgol y Faenol i 315 ac i wella addasrwydd a chyflwr yr adeilad tra'n gwella'r adnoddau cymunedol yn parhau, ac anelir i'w gwblhau erbyn diwedd Tymor y Gwanwyn 2022.
- Yn dilyn y penderfyniad i fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas, cefnogi gwaith yr Adran Addysg i wireddu'r weledigaeth i ddatblygu'r gyfundrefn er mwyn sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.
- Yn dilyn penderfyniad Cabinet ar 10 Mawrth 2020, parhau i gynna trafodaethau anffurfiol ar addysg ôl-16 yn Arfon, er mwyn sicrhau tegwch a chefnogaeth gref i bob person ifanc yn y sir i lwyddo a gwireddu eu potensial.

- Yn dilyn penderfyniad y Cabinet yn Ebrill 2019 parhau â’r bwriad o adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth.
- Parhau i weithredu un o brosiectau Band B i wella cyflwr ac addasrwydd adeiladau 30 o ysgolion y Sir, gyda’r wedd gyntaf a’r ail o’r prosiect yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a chyflwyno ceisiadau pellach yn flynyddol.
- Cyflwyno achosion busnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i ddenu’r arian cyfatebol ar gyfer y prosiectau sydd wedi eu cynnwys ym Mand B.
- Cydweithio gydag adrannau perthnasol i wireddu cynlluniau ychwanegol yn ymwneud ag elfennau blynyddoedd cynnar, cymunedol a’r iaith Gymraeg.
- Ymgymryd â phrosesau i fonitro’r buddion yn dilyn gwireddu’r prosiectau i asesu os ydynt wedi eu cwblhau yn llwyddiannus. Bydd gofyn sicrhau bod yr holl weithdrefnau angenrheidiol yn eu lle i fonitro'r buddion ac yn cael eu nodi’n barhaus.

**CONSORTIWM ADDYSG ÔL-16 GWYNEDD AC YNYS MÔN**

Mae Cyngor Gwynedd yn bartner strategol mewn fframwaith Consortiwm sydd â throsolwg cyflawn o faes addysg ôl-16 ar draws siroedd Gwynedd ac Ynys Môn. Ynghyd â Gwynedd, sy'n bartner arweiniol, mae 3 phartner strategol cyflawn arall sef Cyngor Ynys Môn, Grŵp Llandrillo Menai ac ysgolion uwchradd yr ardal sydd â chweched dosbarth. Mae'r bartneriaeth hon yn caniatáu i benderfyniadau strategol lefel uchel gael eu gwneud ar bob agwedd sy'n effeithio ar addysg ôl-16.

Mae gwaith y Consortiwm yn cwmpasu:

- Hwyluso rhwydwaith o ddarpariaeth a chyrsiau ôl-16 o safon mewn lleoliadau dysgu ar draws ardal y Consortiwm
- Hwyluso trafnidiaeth ar gyfer y cyrsiau
- Rheoli a chydlynu rhwydwaith 14-19 ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn
- Arwain ar gynllun Seren i ymestyn profiadau i ddysgwyr mwyaf abl a thalentog yn yr ôl-16 a hefyd yn CA3 ar ran y ddau Awdurdod
- Hwyluso grŵp proffesiynol o benaethiaid chweched dosbarth
- Hyrwyddo a chyfrannu'n strategol at waith STEM Gogledd
- Cydweithio gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru er mwyn adnabod llwybrau gyrfaol yn lleol ac ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal â sicrhau cysondeb, llwybrau clir ac ansawdd ragorol i'r dysgwyr gan osgoi unrhyw ddyblygu o ran darpariaeth a systemau, mae'r fframwaith hefyd yn caniatáu rhannu'r gost o gyflogi staff i arwain ar, ac i weinyddu'r holl elfennau perthnasol.

Caiff gwaith y Consortiwm ei fonitro gan Fwrdd Arweiniol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Brif Swyddogion y Sefydliadau Partner.

**CYNLLUN TRAC**
**Pwrpas**
Mae TRAC yn gynllun ar draws chwe sir Gogledd Cymru. Mae'r cynllun yn anelu i atal plant a phobl ifanc bregus rhag datgysylltu o addysg a thrwy hynny leihau'r tebygolrwydd eu bod yn segur ac yn ddi-waith yn y dyfodol. Caiff ei ariannu gan Ewrop gyda chyfanswm gwerth y cynllun ar draws y rhanbarth yn £39.6m. Mae'r cynllun ar waith ers Medi 2015 a bydd yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2022.

Cyfanswm gwerth y cynllun yng Ngwynedd yw £4.6M (gyda £3.3M yn dod o Ewrop â'r Cyngor yn darparu amser swyddogion cyfwerth a £1.3M i gyd-ariannu'r cynllun) ac anelwn i gefnogi o leiaf 1,340 o blant a phobl ifanc cyn i'r cynllun ddod i ben.

**Nodweddion da:**
- Cyflogi 14 aelod o staff (drwy arian grant) i gefnogi disgyblion bregus drwy ddarparu ystod o ymyraethau amrywiol sydd yn ategu *ond nid yn dyblygu*'r ddarpariaeth addysg prif ffrwd, gan ganolbwyntio ar godi dyheadau'r plant a phobl ifanc sydd wedi eu cyfeirio at y cynllun a'u cefnogi i ail-gysylltu gyda'u haddysg.
- Bod yn greadigol yn y ddarpariaeth gan feddwl 'tu allan i'r bocs' ynglŷn â sut y gellir goresgyn rhwystrau pob disgybl i ymgysylltu â'u haddysg.
- Llunio darpariaeth sydd yn unigryw i'r unigolyn a gyda'r disgybl yn ganolog.
- Y gallu i ddatblygu ac adeiladu perthnasau effeithiol gyda'r disgyblion.
- Bod yn gyson a thryloyw ac yn amyneddgar; gan amlaf mae gan yr unigolion ystod o heriau cymhleth yn eu bywydau a all amharu ar ein gallu i lwyddo.
- Cefnogi'r ddarpariaeth mae'r disgyblion yn ei dderbyn gan wahanol asiantaethau (megis yr Adran Plant, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ayyb ).
- Cefnogaeth ddwys dros gyfnod penodol i gefnogi disgyblion bregus ym Mlwyddyn 6 i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r Uwchradd.( Ar waith ers Hydref 2019).
- Cydweithio hefo eraill i adnabod y gefnogaeth sydd ei hangen, gan TRAC (ac eraill) i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ragolygon y disgybl i'r dyfodol.

**Canlyniadau:**
- Hyd at ddiwedd Hydref 2021 roedd 1,104 o ddisgyblion wedi derbyn cefnogaeth gan TRAC Gwynedd. Gydag ystod o ganlyniadau wedi eu cyflawni o symud ymlaen i waith neu hyfforddiant, gwella presenoldeb ac ymddygiad, a chefnogaeth i bobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl dwys.
- Yn y flwyddyn academaidd 2020/21:
  - Disgyblion wedi eu cefnogi (Blynyddoedd 7 i 11)(cyfeiriadau newydd) 81
  - Disgyblion wedi eu cefnogi (Blwyddyn 6 /cyfnod trosglwyddo): 86
  - Disgyblion yn gadael y cynllun yn llai tebygol o fod yn segur (nid mewn addysg, gwaith neu gyflogaeth): 90
  - Disgyblion yn ennill cymhwyster BTEC Lefel 1 / 2 39

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**
- Parhau i ddarparu a chefnogi'r disgyblion bregus sydd wedi eu hadnabod i'r cynllun.
- Parhau y cynnig o gwricwlwm amgen i ysgolion drwy unedau achrededig Agored Cymru.
- Bod yn rhagweithiol o ran hyrwyddo'r gwaith sydd yn cael ei gyflawni.
- Gweithredu ar strategaeth ymadael y cynllun (sydd yn dod i ben yn Gorffennaf 2022 ) drwy greu model cynaliadwy i drosglwyddo'r ddarpariaeth i wasanaethau eraill o fewn yr Adran Addysg.
- Mapio etifeddiaeth TRAC a sut gall yr Adran barhau i ddarparu'r model drwy brif ffrydio i wasanaethau sefydlog.
- Cwblhau adroddiad sydd yn gwerthuso effaith y cynllun yn lleol a llunio cynllun busnes ar gyfer olynydd i'r cynllun os bydd modd.

**ARWEINYDDIAETH**

**Pwrpas**

Nod y cynllun arweinyddiaeth yw galluogi fod gan holl arweinwyr Gwynedd y modd i sicrhau fod pob plentyn o dan eu gofal yn medru cyflawni ei lawn botensial. Mae'r Awdurdod wedi adnabod yr angen *"i weithio ar y cyd i greu diwylliant sy'n galluogi arweinwyr i ffynnu; ac yn medru ysbrydoli a dylanwadu ar blant ar bob lefel".*

**Nodweddion da:**

- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau cyfundrefn sydd wedi ei chynllunio a'i datblygu i sicrhau arweinwyr priodol ar bob lefel.
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau cysondeb ar gyfer profiad a chyfleoedd gorau i ddisgyblion Gwynedd.
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau dulliau effeithiol sy'n datblygu arweinwyr presennol.
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau fod amodau penodol mewn lle i alluogi arweinwyr i ffynnu.

**Cymhelliant**
Bu i'r Adran fuddsoddi mewn prosiect peilot Cymhelliant a Mentora mewn Addysg i roi cyfle i benaethiaid gael myfyrio ar eu profiadau gyda chymhellydd proffesiynol. Bu'r rhaglen yn rhedeg drwy gydol y pandemig gan roi cyfle i benaethiaid ac aelodau o dimau rheoli ysgolion gael cyfle i drafod a myfyrio gyda chymhellwyr o amrywiol broffesiynau a diwydiannau a hynny mewn cyfnod digynsail o ran pwysau gwaith. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.

Rhoddwyd cyfle hefyd i benaethiaid gael eu hyfforddi i ennill cymhwyster ôl radd mewn cymell a mentora wedi ei ariannu'n llawn. Manteisiodd 7 pennaeth ar y cyfle, ac maent erbyn yn wedi cwblhau'r radd yn llwyddiannus ac wedi dod yn gymhellwyr proffesiynol eu hunain. Bydd hyn yn ychwanegu at y pŵl o gymhellwyr Cymraeg sydd ar gael yng Ngwynedd.

**Erbyn hyn mae'r cynllun hyfforddiant i arweinwyr mewn ysgolion wedi esblygu yn gontiniwm o ddysgu proffesiynol, syn cael ei gynnig yn ranbarthol ac mae'n cynnwys y canlynol:**

1. **Rhaglen Ddatblygu Arweinyddiaeth Ganol**
Mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth effeithiol iawn trwy hunan arfarnu a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach drwy;

- ddatblygu dealltwriaeth o'r rôl
- ddatblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'r agenda diwygio cenedlaethol
- ddatblygu eu harfer yn unol â'r safonau arweinyddiaeth ffurfiol
- baratoi ar gyfer ymgysylltiad effeithiol gydag elfennau pwrpasol o wybodaeth arbenigol a sgiliau; MDPhau, ADY, Cymraeg, ysgolion ffydd, ysgolion bach ac ati.

2. **Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol ar gyfer Uwch Arweinwyr**
Eto, gyda ffocws penodol ar hunan arfarnu a myfyrio mae'r rhaglen hon yn;

- Datblygu dealltwriaeth o rôl uwch arweinydd ymhellach
- Datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y dylai uwch arweinydd effeithiol eu gwybod a gallu eu mabwysiadu

- Cael cyfle i ddatblygu'r ymddygiadau arweinyddiaeth sy'n ofynnol ar gyfer uwch arweinydd effeithiol
- Datblygu eu dealltwriaeth o'r agenda diwygio cenedlaethol ymhellach
- Datblygu eu harfer o fewn y safonau arweinyddiaeth ffurfiol.

**3. Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Darpar Benaethiaid – Paratoi ar gyfer CPCP 2021-2022**

Mae'r rhaglen hon ar gael i bob arweinydd ysgol profiadol sy'n credu ei fod yn arddangos cyrhaeddiad yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Dysgu & Arweinyddiaeth ac sy'n ystyried prifathrawiaeth fel cam nesaf realistig.

Bydd yn adeiladu ar brofiad blaenorol, a hynny er mwyn meithrin:

- eu dealltwriaeth o rôl pennaeth effeithiol
- eu sgiliau a'u priodoleddau trwy hunan-adolygu yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth
- eu dealltwriaeth a'u gallu i gymhwyso amrywiaeth o sgiliau arweinyddiaeth mewn modd effeithiol
- eu sgiliau cydweithredu trwy gymryd rhan effeithiol mewn rhwydweithiau cyfoedion
- eu gwybodaeth a'u sgiliau ar gyfer datblygu eu hysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu a sicrhau llwyddiant yr agenda ddiwygio genedlaethol

Bydd y Rhaglen yn galluogi'r cyfranogwyr i fyfyrio ar eu harfer proffesiynol eu hunain, ac i sicrhau eu bod wedi paratoi'n dda wrth ymgeisio i ymgymryd ag asesiad ffurfiol ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP).

**4. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd eu Penodi a Phenaethiaid Dros Dro**

Rhaglen sy'n cefnogi penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro wrth eu gwaith:

- Mae wedi ei chynllunio yn unol â'r Model Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol
- Mae'r cynnwys yn seiliedig ar y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, Datblygu Ysgolion yng Nghymru fel Sefydliadau sy'n Dysgu ac Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl
- Mae hyd y rhaglen a dilyniant y gweithgareddau dysgu yn gyson drwy Gymru
- Mae disgwyliadau cyffredin am gynnydd cyfranogwyr a sut bydd hyn yn effeithio ar eu harfer arweinyddol

**5. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol**

Rhaglen ar gyfer penaethiaid sydd eisoes yn brofiadol a chyfle iddynt;

- Fyfyrio ar eu dull arweinyddiaeth eu hunain a sut mae eu harweinyddiaeth yn effeithio ar eraill
- Fyfyrio ar effaith ystod o ddulliau arweinyddiaeth
- Ddeall theori newid a myfyrio ar sut mae hynny'n effeithio ar eu harweinyddiaeth ar y daith ddiwygio drawsffurfiannol
- Gydweithio ag eraill i arwain eu hysgolion yn effeithiol a chael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth ar draws Cymru
- Wreiddio diwylliant ac ymarfer arloesi priodol ar draws a thu hwnt i'w hysgolion

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Sicrhau bod yna blethu amlwg rhwng y cynllun datblygu arweinyddiaeth hwn a'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Cabinet, er mwyn sicrhau bod gennym drefniadau i ddatblygu ac adnabod arweinwyr ar gyfer ein cyfundrefn bresennol ac i'r dyfodol.

## UNED DDATA ADDYSG

Pwrpas Uned Ddata Addysg Gwynedd a Môn yw sicrhau cefnogaeth i'r Adran Addysg drwy ddarparu isadeiledd data a gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n gyrru penderfyniadau a pherfformiad.

**Nodweddion da:**

- Mae'r broses o gyflwyno ceisiadau mynediad neu drosglwyddo ysgol wedi trawsnewid i ddefnyddio system FFOS yn hytrach na ffurflen ar wefan. Golyga hyn fod cais mynediad i ysgolion rŵan yn dilyn yr un trywydd a ceisiadau am Wasanaeth Cyngor Gwynedd, ac yn broses ddi-bapur.
- Cydweithio efo 'r Uned TGCh a'r Ganolfan Fusnes Addysg i drosglwyddo'r ffurflen casglu gwybodaeth SIMS yn electroneg. Mae hyn yn weithredol ers mis Ebrill 2021.
- Elfen PEPs o'r system CDU yn weithredol.
- Ymateb i her COVID-19 drwy ddatblygu adroddiadau newydd i gwrdd ac anghenion yr Adran Addysg
- Cyflwyno adroddiadau Presenoldeb yn wythnosol yn ogystal a rhai mwy manwl pan fo'r gofyn
- Darparu a Chyflwyno adroddiadau dadansoddi canlyniadau TGAU a Lefel A
- Cadeirio Grŵp Rhanbarthol a Bwrdd Prosiect sy'n arwain ar ddod o hyd i system rheoli gwybodaeth Awdurdod ar gyfer y rhanbarth.
- Cyfrannu tuag at gyflawni gofynion newydd y Cyngor yng nghyd-destun herio perfformiad mesurau'r Adran Addysg.
- Cefnogi'r Ganolfan Fusnes gyda ymatebion PLASC a SWAC
- Cwblhau ymatebion statudol (PLASC, SWAC, Casgliad data ôl-16) o fewn yr amserlen

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**
Oherwydd ansicrwydd o gwmpas COVID-19 mae'n anodd gosod blaenoriaethau cadarn, felly, yn y tymor byr gobeithir gyflawni'r canlynol:

- Gwaith pellach i sicrhau fod ein data yn gyfredol a o safon uchel.
- Sicrhau gwell defnydd o 'Transport ONE' er mwyn sicrhau fod y gwybodaeth sy'n cael ei echdynnu yn lleihau'r angen i ddefnyddio taenlenni drwy'r adeg.
- Gweithio gyda'r Ganolfan Fusnes i gyflwyno ffurflenni casglu data SIMS yn cael ei trosglwyddo ar lein yn effeithiol ac yn cael ei mewnosod erbyn mis Medi 2021.

**GWASANAETH CEFNOGI LLYWODRAETHIANT YSGOLION**

Pwrpas y gwasanaeth Cefnogi Llywodraethiant Ysgolion yw:

- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i benaethiaid, llywodraethwyr a chlercod llywodraethwyr ysgolion Gwynedd
- Cynnal rhaglen hyfforddi i lywodraethwyr
- Paratoi deunyddiau hyfforddi/arferion da a gohebiaeth i lywodraethwyr a phenaethiaid
- Cefnogi Cyrff Cysgodol ysgolion newydd

**Nodweddion da:**

- Cynnig cynhaliaeth a chefnogaeth i Gyrff Llywodraethol a'u hysgolion yn ôl y gofyn;
- Parhau i wella ansawdd gwaith y llywodraethwyr ar gyfer herio penaethiaid fel eu bod yn deall ystyr data a deall gwir sefyllfa safonau mewn ysgol.
- Datblygu rôl y llywodraethwyr i ymgymryd â rôl fwy strategol yn y cyfarfodydd ynghyd ag annog hunan arfarnu gwaith y llywodraethwyr a hybu'r defnydd o'r drefn hunan arfarnu cenedlaethol.
- Gallu cynnig hyfforddiant mandadol ac ychwanegol mewn dull rhithwir yn sgil cyfyngiadau Covid ac adborth i'r ymgynghoriad ar hyfforddiant.
- Cynorthwyo Cyrff Llywodraethol i gyflawni eu rôl statudol a chynghori a gweithredu fel llinell gymorth mewn materion llywodraethol i benaethiaid a llywodraethwyr gan gynnwys y broses ormodedd, cwynion ayb.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Gweithredu ymhellach ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad â wnaed yn 2020 ynghylch hyfforddiant i Lywodraethwyr yn benodol gan ddatblygu hyfforddiant electroneg (fidios ac ati) ar gyfer rhai pynciau, a chynyddu'r ystod o hyfforddiant sydd ar gael.
- Uwchraddio'r system Bas Data Llywodraethwyr a chydweithio gyda TG er mwyn hybu hunan wasanaeth ar gyfer y Bas Data fel bod clercod llywodraethol yr Awdurdod yn gallu mewnbynnu gwybodaeth yn uniongyrchol.
- Cydweithio â'r adran TGCh i sefydlu adran i Lywodraethwyr ar HWB (LlC) a sicrhau bod gan Lywodraethwyr gyfrif HWB.
- Rhesymoli rhestr Polisïau Ysgolion a sicrhau bod templedi cyfredol ar gael ar yr HWB.
- Datblygu pecyn o dempledi Dogfennau Statudol a ddylai fod gan ysgolion.

**UNED CONTRACTAU A CHYFLOGAU**

**Pwrpas**

Mae'r Uned yn darparu amrywiaeth o waith cefnogol i holl ysgolion y sir. Mae hyn yn amrywio o roi cyngor ac arweiniad parthed telerau ac amodau gwaith staff ysgolion i benaethiaid, llywodraethwyr a swyddogion y sir, prosesu amserlenni ar gyfer tâl, creu cytundebau, gwirio cefndir troseddol pob aelod o staff, cynghori athrawon ynglŷn â'u pensiwn a phrosesu taliadau diswyddo.

**Nodweddion da:**

- Staff ein hysgolion yn parhau i dderbyn eu tâl yn gywir ac ar amser yn fisol
- Fel adran ein bod yn parhau i gadw at lefel gwasanaeth sydd yn deg ac yn gyson i bob ysgol drwy ddilyn yr amserlen waith drwy gydol y flwyddyn addysgol.
- Cael cytundebau holl staff ysgolion allan yn unol â'r gofynion statudol, sef o fewn wyth wythnos o gychwyn mewn swydd.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Diweddaru a diwygio rhestr athrawon llanw ar system ONE ar gyfer creu app 'llogi' athrawon llanw i mewn i ysgolion. Gan fod y rhestr llanw wedi ei diwygio rydym yn parhau i'w ddiweddaru fel y mae ceisiadau newydd yn dod mewn yn barod ar gyfer yr 'app'.

- Symud i drefn electronig o storio ffeiliau personol staff. Rydym wedi creu ffeil electroneg ar gyfer pawb yn iGwynedd erbyn hyn. Mae pawb sydd wedi cychwyn ers 01.09.2020 gyda ffeil electroneg yn unig. Rydym wedi trosglwyddo ffeil pob staff ategol/cymorthyddion Ysgolion cynradd o bapur i electroneg ac yn bwriadu symud ymlaen i wneud yr un peth gyda'r Uwchradd a holl Athrawon y Sir dros y misoedd nesaf.

- Parhau i annog penaethiaid i wneud yn siŵr bod pob staff dysgu a chymorthyddion cefnogaeth dysgu wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg ac wedi cwblhau'r broses DBS cyn eu bod yn cychwyn mewn ysgol. Rydym yn parhau i annog hyn. System electronig o wirio DBS wedi rhoi mewn lle ac felly bydd hyn yn hwyluso'r sefyllfa.

- Cydweithio gyda'r Uned Adnoddau Dynol ar greu datganiad electroneg ar gyfer Athrawon. Gyda datganiad wedi creu erbyn hyn bydd angen ei roi heibio'r undebau er mwyn cael eu sêl bendith i weithredu arno cyn cyntaf bo modd.

**GWASANAETH ARLWYO A GLANHAU**

**Pwrpas**

Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion Ysgolion Gwynedd a chadw'r sefydliadau addysgol yn lan a diogel er mwyn cynorthwyo'r disgyblion gyrraedd eu potensial.

**Nodweddion da y gwasanaeth**

- Bwydlen cinio ysgolion cynradd ac arbennig yn cydymffurfio gyda 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth)(Cymru) 2013'
- Bwydlen cinio ysgolion Uwchradd yn gweithio tuag at gydymffurfio gyda 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013'
- Cynnal sesiynau blasu/maeth o fewn ysgolion i annog mwy o ddisgyblion i fwyta cinio ysgol
- Cynnig i rieni sydd yn darparu bocs bwyd i'w plant os ydynt eisiau cinio rai dyddiau o'r wythnos
- Cynnig cinio themâu rheolaidd i'r ysgolion
- System talu ar lein i rieni sydd yn hwyluso ffordd i dalu am wahanol wasanaethau i ysgolion megis cinio, tripiau, gwersi offerynnol ayb
- Cynnig i bob ysgol ble mae cynllun gofal 30 awr yn weithredol gan gylch meithrin i gynnig cinio ysgol fel rhan o'r ddarpariaeth
- Cadw ysgolion yn lân ac yn ddiogel
- Cefnogi Ysgolion Uwchradd i fynd yn ddi-arian drwy gyflwyno system di-arian cinio

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf**

- Cydweithio efo ysgolion i fynd yn gwbl ddi-arian
- Parhau i annog rhieni ddewis cinio ysgol ar gyfer eu plant
- Cynorthwyo ysgolion i ostwng lefelau dyledion cinio rhieni
- Gweithredu ar ddarparu pecyn bwyd ar dripiau i ysgolion
- Adolygu'r galw am ddarpariaeth clybiau brecwast mewn ysgolion cynradd
- Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth i ddarparu cinio am ddim i ddisgyblion cynradd, bydd angen asesu anghenion y gwasanaeth i gwrdd ar gofyn.

**CLUDIANT**

Trefnu cludiant i ddisgyblion Gwynedd i sefydliadau addysgol sydd yn rhoi mynediad iddynt at addysg i gyrraedd ei potensial.

**Nodweddion da y gwasanaeth:**

- Cludiant wedi ei drefnu i holl ddisgyblion sydd yn deilwng
- Cludiant wedi ei drefnu i fyfyrwyr ôl 16 oed
- Y gallu i brynu tocyn teithio ôl 16 oed drwy ddebyd uniongyrchol
- Y gallu i brynu e-docyn teithio ôl 16
- Fforwm defnyddwyr ôl 16 oed yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn
- Polisi Cludiant Gwynedd yn cydymffurfio gyda 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr Cymru 2008'
- Ymestyn tocyn teithio ôl 16 oed i gynnwys myfyrwyr dros 19 oed

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Adolygu y trefniadau ar gyfer y tocyn teithio ol-16
- Sicrhau effeithlonrwydd y gwasanaeth drwy adolygu meini prawf a systemau presennol

**CANOLFAN FUSNES ADDYSG**

Pwrpas y Ganolfan Fusnes Addysg yw cefnogi rheolaeth effeithiol Ysgolion Gwynedd.

Mae'r Ganolfan yn cefnogi 80 o ysgolion cynradd drwy ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth sydd yn bodoli rhwng yr ysgolion a'r Ganolfan.

Rhoddir cefnogaeth ar gyfer amrywiaeth o feysydd yn y maes rheolaeth ysgol.

**Nodweddion da:**

- Drwy gymorth y grant ysgolion bach a gwledig 2020/21 bu'n bosibl parhau gyda'r gefnogaeth weinyddol ychwanegol a ddarperir i Benaethiaid allan yn yr ysgolion yn ogystal â darparu'r cynllun ateb galwadau ffôn ar ran rhai ysgolion.
- Archebion gan ysgolion ar gyfer prynu nwyddau/gwasanaethau drwy gerdyn credyd y Ganolfan Fusnes Addysg wedi cynyddu dipyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n dangos bod yr ysgolion yn cael budd o'r gwasanaeth.
- Tîm y Ganolfan Fusnes Addysg wedi bod yn rhoi cymorth i ysgolion drwy ddarparu adroddiadau cyson ar gyfer manylion cyswllt disgyblion a staff i rannu gyda thîm olrhain diogelu (Track & Trace) pan fo achosion o COVID-19.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Parhau i gyflwyno cardiau credyd i ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd mawr sydd efo gweinyddwyr yn yr ysgolion i gefnogi'r drefn.
- Parhau i weithio'n agos gyda'r Tîm Caffael i roi gwerth gorau i ysgolion ar gytundebau Caffael.
- Parhau i adnabod a gwella gwasanaethau sydd yn mynd i gyfrannu tuag at leihau baich gwaith Penaethiaid.
- Datblygu ymhellach trefn effeithiol ac effeithlon ar gyfer archebu a thalu am nwyddau a gwasanaethau Ysgolion.
- Datblygu mewnrwyd ar gyfer y Ganolfan Fusnes Addysg ar yr HWB ar gyfer cyfathrebu, rhannu gwybodaeth ac ymarferion da gydag ysgolion.
- Datblygu ymhellach y tîm gweinyddwyr sy'n mynd allan i weinyddu i ysgolion.

**TECHNOLEG GWYBODAETH**

**Pwrpas**

Er nad oes uned benodol o fewn yr Adran Addysg sydd yn delio â materion technoleg gwybodaeth, mae gwaith sylweddol wedi ei gwblhau'n y maes allweddol hwn mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth Corfforaethol. Mae'r gwaith yn y maes wedi ei selio ar ein Strategaeth Addysg Ddigidol gyda'r pwrpas clir o gefnogi addysg drwy dechnoleg.

**Nodweddion da:**

- Strategaeth Addysg Ddigidol wedi ei chymeradwyo sydd yn amlygu sut y byddwn yn ymateb i'r her o gefnogi addysg drwy dechnoleg.
- Wedi cytuno ar drefniadau cynnal a chadw gwydn i'r dyfodol.
- Wedi cytuno ar gynllun i gyd-ariannu a diweddaru'r dyfeisiadau ar ddiwedd eu hoes.
- Rhwydweithiau ysgolion Gwynedd wedi eu huwchraddio i gyfarfod â safonau cenedlaethol
- Dros 6,000 o ddyfeisiadau wedi eu darparu yn ystod tymor yr haf.
- Dros 6,000 o ddyfeisiadau ychwanegol wedi ei prynu.
- Wedi symud systemau e-bost ysgolion i system Hwb.
- Wedi symud systemau storio data ysgolion cynradd i system cwmwl.
- Cynllun hyfforddi proffesiynol wedi cychwyn o dan arweiniad GwE.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Sefydlu strwythur ar gyfer uned fewnol newydd ar gyfer cynnal a chadw dyfeisiadau.
- Penodi i'r strwythur cefnogi newydd.
- Cytuno ar raglen waith gydag ysgolion unigol fydd yn cynnwys pryd a sut y bydd y cyflenwad llaw o ddyfeisiadau yn cyrraedd yr ysgolion.
- Sicrhau defnydd llawn a chyson o'r dyfeisiadau ar draws ein ysgolion.
- Sicrhau bod ysgolion â gweledigaeth glir ar bwysigrwydd meithrin sgiliau digidol
- Sicrhau bod ysgolion â chynlluniau gweithredu clir i feithrin sgiliau digidol ar draws y cwricwlwm.